# Lleihau risg lledaenu haint wrth gludo dillad gwely glân neu ddillad gwely wedi’u defnyddio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chludo dillad gwely glân neu ddillad gwely wedi'u defnyddio, a dillad gwely heintus, y dylid eu gwneud yn gyfan gwbl ar wahân gan ddefnyddio trolïau neu gerbydau a luniwyd yn benodol ar gyfer pob tasg i leihau risg trosglwyddo haint.

Mae'n berthnasol i bob lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys lleoliadau cymunedol a chartref, a lleoliadau gofal ambiwlans.

Nid yw'r safon hon yn cwmpasu cludo dillad gwely ymbelydrol na dillad gwely gan unigolion â chlefydau heintus hysbys, pan fydd angen rhagofalon ychwanegol.

Glanhau a diheintio yw'r termau a ddefnyddir yn y safon hon, fodd bynnag mewn rhai ardaloedd, defnyddir y term 'dihalogi'. Mae 'Dihalogi' yn derm ymbarél sy'n cynnwys glanhau, diheintio a sterileiddio fel y bo'n briodol.

Dylai'r safon gael ei defnyddio ochr yn ochr â deddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol.

Bydd angen i ddefnyddwyr y safon hon sicrhau bod ymarfer yn adlewyrchu gwybodaeth a pholisïau cyfredol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. delio'n brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau o fewn eich rheolaeth a rhoi gwybod am broblemau nad allant gael eu datrys
4. nodi a lleihau peryglon a risgiau yn y gweithle
5. cyflawni hylendid effeithiol y dwylo a defnyddio cyfarpar diogelu personol yn unol â gofynion y sefydliad
6. sicrhau nad yw cynwysyddion dillad gwely sydd heb eu llenwi neu eu diogelu'n gywir yn unol â gofynion y sefydliad yn cael eu casglu na'u cludo
7. casglu dillad gwely mewn cynhwysydd, wedi'i ddiogelu, o ardaloedd dynodedig yn unol â'r amserlen gytunedig a chan ddefnyddio'r technegau symud a thrafod cywir
8. cludo'r dillad gwely i'r pwynt casglu neu'n uniongyrchol i'r golchdy, yn ddiogel ac mewn cynhwysydd, gan ddefnyddio troli neu gerbyd a luniwyd yn benodol ar gyfer casglu dillad gwely wedi'i ddefnyddio
9. sicrhau bod unrhyw drolïau neu gerbydau yn cael eu glanhau, gyda neu heb ddiheintio, ar ôl eu defnyddio a gwirio eu bod yn gweithio'n iawn cyn eu hailddefnyddio; os nad ydynt, dylid eu cadw ar wahân a rhoi gwybod amdanynt
10. tynnu cyfarpar diogelu personol gan waredu unrhyw gyfarpar defnydd untro mewn cynhwysydd gwastraff priodol, glanhau neu ddiheintio unrhyw gyfarpar ailddefnyddiadwy yn barod i'w ailddefnyddio
11. casglu a chludo dillad gwely glân gan osgoi eu traws-halogi â dillad gwely wedi'u defnyddio, gan ddefnyddio troli neu gerbyd a luniwyd yn benodol ar gyfer dosbarthu dillad gwely glân
12. cymryd camau priodol pan fydd amlygiad yn digwydd wrth gludo dillad gwely wedi'u defnyddio neu ddillad gwely glân
13. gwaredu gwastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
14. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r protocolau presennol sy'n berthnasol i'ch ymarfer yn y gwaith, ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
2. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun fel y bo'n berthnasol i'ch rôl
3. sut i gael at a dehongli'r holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
4. gweithdrefnau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sydd y tu hwnt i'ch cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
5. y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithred neu anwaith a allai fod yn anniogel/yn niweidiol i chi neu i eraill
6. y peryglon a'r risgiau a allai godi wrth i chi gyflawni eich rôl a sut y gallwch eu lleihau
7. y defnydd cywir o unrhyw gyfarpar a chyfarpar diogelu personol (PPE) i amddiffyn eich iechyd a'ch diogelwch chi a phobl eraill
8. rhagofalon atal a rheoli heintiau safonol, perthnasol, deddfwriaeth/canllawiau cenedlaethol a pholisïau/gweithdrefnau lleol
9. y gadwyn heintio
10. hierarchaeth mesurau rheoli
11. camau allweddol hylendid y dwylo
12. sut gall dulliau mewn amgylcheddau clinigol a chymdeithasol amrywio
13. sut i gael at gyfleusterau ar gyfer hylendid y dwylo
14. technegau effeithiol ar gyfer cynnal hylendid y dwylo
15. sut i gael at ddarpariaeth cymorth cyntaf
16. y cyfarpar diogelu personol priodol i'w ddefnyddio wrth gludo dillad gwely
17. y bagiau a'r cynwysyddion gwastraff cod lliw gwahanol sydd ar gael a'r defnydd cywir o bob un ohonynt
18. sut i drafod dillad gwely wedi'u gwahanu mewn bagiau yn ddiogel yn y mannau casglu a dosbarthu
19. sut i gludo dillad gwely glân a dillad gwely wedi'u defnyddio yn gywir i atal halogiad
20. sut i roi gwybod am ddigwyddiadau, helyntion neu ddamweiniau andwyol
21.

yr amrywiaeth o gamau priodol i'w cymryd pan fydd amlygiad yn digwydd wrth gludo dillad gwely glân neu ddillad gwely wedi'u defnyddio:

22. sut a phryd i roi gwybod am unrhyw broblemau
23. sut i gael gwared ar wastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
24. sut i gwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad, a'i storio'n ddiogel

SFHIPC10

Lleihau risg lledaenu haint wrth gludo dillad gwely glân neu ddillad gwely wedi'u defnyddio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Health |
| **RCU gwreiddiol** | SFHICP10 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **Cyfres/Set** | Atal a rheoli heintiau |
| **Geiriau Allweddol** | Risg, haint, atal, cludo, dillad gwely |